# Ysgol Gynradd Clytha

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

## Cyflwyniad

Mae Ysgolion Heddwch Cymru yn fannau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, ac yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar gydweithredu, parchu gwahaniaethau a datrys problemau.

Mae hyn yn sicr yn wir am Ysgol Gynradd Clytha, Casnewydd, a benderfynodd ymuno â'r Cynllun a dechrau eu cynllun gweithredu. Fe wnaethant benderfynu ei bod yn bwysig cefnogi plant, a sicrhau eu bod yn derbyn gofal ac yn cael eu cefnogi ar y lefel uchaf posibl.

**"Mae'r ysgol yn gymuned fywiog a chroesawgar, sy'n gwireddu ei gweledigaeth yn llawn i feithrin talentau ei holl ddisgyblion a staff."**




GWAITH HEDDWCH WEDI'I GREU GAN DDYSGWYR

**Beth wnaeth wneud i chi benderfynu dod yn Ysgol Heddwch?**

Yn Ysgol Gynradd Clytha, mae gennym ethos o "Undod", lle mae aelodau o'n cymuned yn parchu ei gilydd ac yn cydweithredu i gyflawni'n hyderus ar y lefel uchaf posibl.

**Sut wnaethoch chi gynnwys straeon heddwch yn y cwricwlwm?**

Rydym yn ymdrechu bob amser i ddatblygu creadigrwydd o fewn ein cwricwlwm, gyda llawer o'r cyfleoedd hyn yn cael eu lleisio a'u harwain gan y plant. Gellir datblygu straeon heddwch drwy sesiynau Saesneg, ABCh ac AG

**Beth oedd y canlyniadau?**

Dechreuodd myfyrwyr gymryd rhan fel dinasyddion lleol a byd-eang gweithgar. Er enghraifft, mae Blwyddyn 6 wedi dechrau gweithio ar brosiect yn barod, lle mae plant wedi gweithio ar Nodau Datblygu Cynaliadwy 3 (iechyd a lles da) a 6 (Dŵr glân a glanweithdra). Fel arweinwyr y dyfodol, mae'n hanfodol bod y nodau hyn ar flaen meddyliau ein plant, ynghyd ag ymwybyddiaeth o sut y gallant chwarae rôl weithgar yn ein cymuned.

## Yr effaith hyd yn hyn

Oherwydd y Cynllun Gweithredu, mae disgyblion:

- Yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas yn lleol, yn genedlaethol ac ar draws y byd
- Yn cydnabod bod ganddynt le diogel a heddychlon tu mewn iddynt.
- Yn cydweithredu ac yn parchu safbwyntiau, barnau a phenderfyniadau ei gilydd.
- Yn dangos parch at ei gilydd yn y byd go iawn ac yn y byd digidol.
- Yn ymwybodol o ryfel, heddwch a materion byd-eang, ac yn gallu eu trafod
- Wedi dysgu am oddefgarwch a chynwysoldeb
- Yn dod yn ddinasyddion mwy hyderus, galluog ac annibynnol.

**'Rydym yn hoffi rhoi rhywfaint o strategaethau i blant, i'w helpu i stopio a meddwl os ydynt mewn sefyllfa anodd.'**